



YSGOL GYMRAEG PONTARDAWE
CYLCHLYTHYR 1 – TYMOR YR HYDREF 2017
AUTUMN TERM 2017 – NEWSLETTER 1



www.npted.org/schools/primary/yggpontardawe
yggpontardawe@npted.org

Croeso / Welcome

Gobeithio fod pawb wedi mwynhau'r Haf a chroeso mawr i bawb yn ôl atom ar ddechrau tymor newydd. Fe fydd gweddill cylchlythyron y flwyddyn yn cael eu he-bostio. Os nad ydych yn derbyn y copi yma ar e-bost, cysylltwch â ni er mwyn i ni sicrhau fod cyfeiriad e-bost cyfredol gyda ni. Yn yr un modd, os nad oes e-bost gyda chi, gadewch i ni wybod er mwyn i ni drefnu copi caled ar eich cyfer.

We trust that everyone has all enjoyed the summer and a warm welcome back to school for the new academic term. Future newsletters will only be emailed. If you do not receive this copy on email, please let us know, so that we can ensure that we have an up to date email. Likewise, if you do not have email, please let us know and we will ensure you receive a hard copy.

Ffurflenni i Rieni / Parent Forms

Gallwn ofyn i chwi ddychwelyd y ffurflenni gwybodaeth sy'n glwm cyn gynted ag y bo modd? Diolch.
Could we ask you kindly to return the attached form as soon as you can? Many thanks

Gwybodaeth rhyddhau diwedd dydd / *End of day handover information*

Ffurflen ganiatâd ymweliadau / *School visit consent form*

Taflen Data Disgybl i'w gwirio / *Pupil Data Sheet for checking*

Ymweliadau Preswyl (Adran Iau) / *Residential Visits (Junior Department)*

Cytundeb cartref ysgol / *Home School Agreement*

Mae'r cytundeb cartref ysgol wedi'i addasu i adlewyrchu ymhellach nodau ac amcanion yr ysgol. Os allwch drafod y cytundeb gyda'ch plant, ei arwyddo a'i ddychwelyd i'r ysgol. Diolch o galon

The Home School Agreement has been adapted to closer reflect the school's aims and objectives. Could parents / guardians discuss its content with their children, sign it and return the document to school. Many thanks.


Croeso i staff newydd / A welcome to new staff

Croesawn dri aelod o staff dysgu newydd i'r ysgol y tymor yma /

We welcome three new members of staff this term.

Mrs Nerys Saunders yn bennaeth adran blwyddyn 1 a 2 ac yn dysgu blwyddyn 2.

Mrs Nerys Saunders as our year 2 teacher and year 1 and 2 department head.




Miss Alice Davies yn athrawes blwyddyn 5.

Miss Alice Davies as our year 5 teacher.

Miss Casey Morgan sy'n gynorthwydd addysgu yn y Cyfnod Sylfaen.

Miss Casey Morgan as a teaching assistant in the Foundation Phase.



Bydd Mrs Natalie Fairburn yn cychwyn ar ei rôl yn llawn fel swyddog cyswllt teulu. Ei rôl fydd i gynnig cymorth cyfeillgar i rieni a disgyblion a delio ag unrhyw anawsterau neu ofidion sydd gan deuluoedd yn yr ysgol neu adref.

Mrs Natalie Fairburn will fully commence her role as a family liaison officer. Her role will be to offer friendly support to parents and pupils and deal with any difficulties or fears that families experience in school or at home.

Gwasanaeth Diolchgarwch / Harvest Thanksgiving Service

Cynhelir ein gwasanaeth Diolchgarwch ar Ddydd Gwener, Hydref 27^{ain}. Bwriad ein gwasanaeth fydd i ddiolch am ein bendithion. Fe fydd hyn wrth gwrs, yn tynnu sylw'r plant at deuluoedd sydd yn llai ffodus na ni.

Os dymunwch, gwahoddir chi i gyfrannu bwydydd parod fel y gellir eu casglu yn yr ysgol a'u harddangos yn y gwasanaeth. Bwriedir i'r cyngor ysgol drefnu'r bwyd gyrraedd 'Y Pantri Bwyd' yn y dref sy'n gwneud gwaith amhrisiadwy yn dosbarthu bwyd i'r anghenus.

The school will be participating in a Harvest Thanksgiving service on Friday, October 27th. We will be giving thanks for the numerous blessings in our lives. Children will learn that there are families in our community less fortunate than ours. You are invited to contribute tinned or packaged food to be collected in school and exhibited in the assembly. The School Council will organise the delivery of the food to the 'Food Bank', which does such wonderful work distributing to the families that need some extra support.

Siarter Iaith Castell Nedd a Phort Talbot / Neath Port Talbot Language Charter

Mae'r ysgol yn gweithio tuag at ail wobwr arian Siarter Iaith Castell Nedd a Phort Talbot. Nod y Siarter yw

- Ysbrydoli ein plant a'n pobl ifanc i ddefnyddio'u Cymraeg ym mhob agwedd o'u bywydau fel bod ein holl blant a phobl ifanc yn ymwybodol o gyd-destun hanesyddol, diwylliannol, cymunedol ac ieithyddol Cymru.
- Cyfrannu'n greadigol at ethos Gymraeg yr ysgol.
- Hyderus i ddewis i ddefnyddio eu Cymraeg.
- Gwella eu sgiliau a rhuglder ieithyddol ar draws y Cwricwlwm ac yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd.

Mae rhieni yn ganolog i hyn. Gobeithiwn eich cynnwys fwyfwy yn ein gwaith tuag at weithredu'r Siarter ac wrth atgyfnerthu manteision dwyieithrwydd gyda'r disgyblion.

The school is working towards the second silver stage of the Neath and Port Talbot Language Charter. The aim of the Charter is to

- *Inspire our children and young people to use their Welsh in all aspects of their lives and develop greater awareness of the historical, cultural, community and linguistic context of Wales.*
- *Contribute creatively to the school's Welsh ethos.*
- *Confident to choose to use their Welsh.*
- *Improving their linguistic skills and fluency across the Curriculum and ready to become citizens of Wales and the world.*

Parents are central to this aim. We hope to increasingly involve you in our work towards implementing the Charter and in reinforcing the benefits of bilingualism with the pupils.

Cinio Ysgol / School Dinner

O ddechrau'r tymor pris cinio ysgol fydd £2:30 y dydd, £11:50 yr wythnos. Ni chafwyd codiad llynedd ac fel deallwn ni hi, mae'r pris yn fwy na chymharol ag awdurdodau eraill. Bob blwyddyn mae'n rhaid i ni gyflwyno data i DEWI (Ystadegau Llywodraeth Cymru) ar gyfer ein cyllid yn y dyfodol. O'r data yma, mae'n amlwg nad yw pob teulu sydd â hawl i Brydau Ysgol am Ddim yn ymgeisio amdano. Gallai hyn effeithio ar ein cyllid. Anogwn bob rhiant a allai fod yn gymwys i wneud cais hyd yn oed os ydynt yn parhau yn awyddus i dalu am bryd bwyd eu plant neu eu darparu â phhecyn bwyd. (plant 5 oed neu'n hŷn sy'n gymwys). Ymdrinnir â'r broses mewn ffordd hollol gyfrinachol. Os credwch fod gennych yr hawl i Brydau Ysgol am Ddim, gallwch ein helpu trwy wneud cais gan y gallai gael effaith ddramatig ar ein cyllid yn y dyfodol. Mae'r ffurflen gais ar gael ar ein gwefan o dan y tab Gwybodaeth i Rieni neu mae copïau caled ar gael o swyddfa'r ysgol.

The price of a school dinners is £2.30 per day - £11.50 per week. There were no increases in prices last year and as we understand it, the price remains competitive in relation to other Welsh Authorities. Every year we submit data to DEWI (Welsh Government Statistics) that contributes in part to our future funding. From this data it is evident that not all families whose children are entitled to Free School Meals are applying. This could effect our funding. We would encourage all parents who believe they may be eligible to apply even if you still wish to pay for your child's meal or supply them with a packed lunch. (Eligibility is for children of 5 years or older). All personal information regarding your child is dealt with in a completely confidential manner and this includes whether or not the child is entitled to Free School Meals. If you are entitled to Free School Meals then please help us by applying as it could have a dramatic effect on our future funding. The application form is available on our website under the Information for Parents tab or a hard copy from the school office.

Goruchwylwyr Cinio / Lunchtime Supervisors

Fe fyddwn yn hysbysebu'n fuan am oruchwylwyr amser cinio. Os wyddoch am unrhyw un a allai sbario awr amser cinio i ymgymryd â'r rôl, anogwch nhw i gysylltu â'r ysgol.

We will soon be advertising for lunchtime supervisors. If you know of anyone (parents / grandparents) who could spare an hour at lunchtimes, encourage them to contact the school.

Gwisg Ysgol / School Uniform

Hyfryd oedd gweld y disgyblion yn gwisgo eu gwisg ysgol yr wythnos gyntaf. Diolch i bawb am eu hymdrechion. Mae gwybodaeth am wisg swyddogol yr ysgol ar ddiwedd y cylchlythyr. Gellir archebu'r wisg drwy'r linc isod a thalu ar lein a chasglu archebion o'r ysgol.

It was very good to see the pupils looking so smart in their new uniforms the first week back after the summer. A big thank you to everyone for their efforts. Details of the official school uniform follows the newsletter. It can be ordered and paid for online via the link below and collected from school.

<https://manhattan-online.co.uk/collections/ysgol-gymraeg-pontardawe>

Y Pantri Bwyd / Pantry Food Bank

Gair i'ch atgoffa. Mae yna alw mawr am Fanciau Bwyd wrth i fwy a mwy o bobl, heb unrhyw fai arnyn nhw, ei chael yn anodd rhoi bwyd ar eu byrddau. Mae dros 400 o Fanciau Bwyd ar waith o fewn y DU. Banc Bwyd yw PANTRY gafodd ei sefydlu i wasanaethu anghenion Pontardawe, Alltwen, Trebannws, Rhyd-y-fro, Rhos ac Ynysmeudwy. Rydym am eu cynorthwyo trwy gynnal bin casglu yn yr ysgol. Trosglwyddir y cynnyrch a gesglir i'r prif fanc ym Mhontardawe. Mae angen gymaint o fwyd a phosib arnynt. Gallwch helpu drwy ddanfôn y cynnyrch isod i'r ysgol, byddem yn ddiolchgar iawn. Byddwn yn cadw'r banc yn nerbynfaf'r ysgol.

There is a growing need for Food Banks as more and more people, through no fault of their own, are struggling to put food on their tables. There are over 400 Food Banks operating in the UK. PANTRY is a Food Bank set up to service the needs of Pontardawe, Alltwen, Trebanos, Rhyd-y-fro, Rhos and Ynysmeudwy. We will be supporting the food bank by arranging a collection bin in school. Anything donated at school will be transferred to the main food in Pontardawe. The bank needs as much food as possible from the list below. You can help by sending any of the following to school, we would be extremely grateful. The school bank will be held in the reception. (pantrypontardawe@gmail.com or www.facebook.com/groups/pontypantry12345 for more information)

Bwydydd anarfodus megis reis, pasta a nwdls /

non perishable foods such as rice, pasta and noodles

tuniau - ffa pob, sbageti, cig, pysgod, llysiau a ffrwythau /

Tins – Baked Beans, spaghetti, meat, fish, vegetables and fruit

Te a choffi, siwgr, grawnfwyd neu uwd, llaeth sych a nwyddau ymolchi /

Teas and coffees, sugar, cereals and porridge, dried milk and toiletries.

Clybiau Allgyrsiol / After School Clubs

Bydd y clybiau yn cychwyn yr wythnos yn cychwyn ar y 20^{fed} / 21^{ain} o Fedi. Fel y llynedd, i'n galluogi i gynnal ystod y clybiau, byddwn yn codi £1 y pen am bob clwb.

Clubs will commence on the 20th / 21st of September. As last year, to enable us to maintain the range of clubs, we will be charging £1 per head per club.

Nos Fercher / Wednesday Night

Clwb Pêl Chwaraeon (Bl. 3 i 6) / *Games Club (Yrs 3 to 6)*

Nos Iau / Thursday Night

Cynhelir **Adran y Barli** rhwng 3.15 - 4.15 ar gyfer Bl3 i Fl 6. Cynigir amrywiaeth o weithgareddau yn ystod y tymor megis rygbi, pêl droed, pêl rwyd, gweithdai celf a choginio, gemau bwrdd, bingo, drama, cyfeiriannu, codio a chwaraeon tîm. Y gost yw £1 yr wythnos a bydd angen bod yn aelod o'r Urdd.

Adran y Barli meets 3.15 – 4.15pm for Yrs 3 – 6 pupils.

The menu of activities during the term includes netball, rugby, soccer, ball skills, art/cookery workshops, coding and bingo. The cost is £1 per week and pupils will need to be members of the Urdd.

Gwersi Offerynnol / Instrument Lessons

Dydd Llun / Monday – Prês / *Brass* (Mr Wayne Pedrick)

Dydd Mawrth / Tuesday – Drymiau / *Drums* (Mr Lyn Rees)

Dydd Mercher / Wednesday – Llinynnol / *Strings* (Mrs Sharon Williams)

Dydd Iau / Thursday – Telyn / *Harp* (Mrs Elin Lloyd)

Dydd Gwener / Friday - Llinynnol / *Strings* (Mrs Sharon Williams)

Ar ddydd Iau, Medi'r 7^{fed}, cafodd disgyblion blwyddyn 4 - 6 gyfle i weld, clywed a phrofi'r holl ystod o offerynnau a gynigir drwy'r Gwasanaeth Cerdd. Os yw'r disgyblion yn arddangos diddordeb mewn chwarae offeryn byddwn yn cysylltu â rhieni wedi hynny. Fe gynhelir clyweliadau ar gyfer eu dysgu (os yn briodol). Os hoffech i'ch plentyn dderbyn gwersi offerynnol, cysylltwch â ni. (B3 - B6)

On Thursday, September 7th, year 4 - 6 pupils were provided the opportunity to see, hear and experience the range of instruments offered by the Music Service. If the pupils show an interest in playing an instrument, we'll contact parents with further details. Auditions may be held (if appropriate). If you would like your child to receive instrument lessons, please let us know. (Y3 – Y6)

Cylch Meithrin Pontardawe

Fel gwydd nifer ohonoch eisoes, mae Cylch Meithrin Pontardawe bellach wedi adleoli o Ganolfan y Groes i safle Ysgol Gymraeg Pontardawe. Estynnwn groeso mawr iddynt ac edrychwn ymlaen at gryfhau'r berthynas rhyngom. Os hoffech wybodaeth bellach, eu rhifau cyswllt yw Mrs Julie Davies 07480 667256 & Mrs Claire Morgan 07772 584433.

As a number of you are already aware, Cylch Meithrin Pontardawe has relocated from the Groes Community Centre to Ysgol Gymraeg Pontardawe. We extend them a very warm welcome and look forward to further strengthening our relationship. If you would like further information, their contact numbers are Mrs Julie Davies 07480 667256 & Mrs Claire Morgan 07772 584433.

Clwb Brecwast / Breakfast Club

Mae'n clwb brecwast yn agor am 8:00yb tan 8.30. Cofiwch mai cyfrifoldeb rhieni yw diogelwch y disgyblion hyd agorir drysau'r clwb am 8:00yb. Cofiwch - Ni allwn dderbyn disgyblion i'r clwb ar ôl 8:20yb.

Our breakfast club is open at 8.00 until 8.30am. Could you please remember that pupils must be supervised until the doors open at 8.00am. Please remember that we cannot accept pupils to the club after 8:20am.

Cofion Gorau / *Best Wishes*



Ceri Emanuel

Pennaeth / *Headteacher*



Ysgol Gymraeg Pontardawe

Dyddiadur Hydref 2017 / *Autumn 2017*





Nos Lun Medi 11 ^{eg} <i>Monday, September 11th</i>	Noson Groesawu Meithrin / Derbyn am 3:20yh <i>Nursery / Reception Welcome Evenings at 3:20pm</i> <i>Dosbarthiadau / Classes - Mrs Evans, Mrs Jones/Morgan</i>
	Noson Groesawu B1&2 am 4:00yh <i>Y1&2 Welcome Evenings at 4:00pm</i> <i>Dosbarthiadau / Classes - Miss Smyth, Mrs Lewis a Mrs Saunders</i>
Nos Fawrth Medi 12 ^{fed} <i>Tuesday, September 12th</i>	Noson Groesawu B3&4 am 3:30yh <i>Y3&4 Welcome Evenings at 3:30pm</i> <i>Dosbarthiadau / Classes - Miss Lewis/Mr Price a Mrs Richards</i>
	Noson Groesawu B5&6 am 4:10yh <i>Y5&6 Welcome Evenings at 4:10pm</i> <i>Dosbarthiadau / Classes - Miss Mair Davies, Miss Alice Davies, Mrs Wakeham a Mr Owen.</i>
Dydd Iau Medi 14 ^{eg} <i>Thursday, September 14th</i>	Ymweliad B3&4 â Choedwig Cwmdu <i>Y3&4 visit to Cwmdu Woods</i>
Dydd Iau Medi 14 ^{eg} <i>Thursday, September 14th</i>	Ymweliad Adran D, 1&2 â Fferm Ffoli <i>R, Y1&1 Department visit to Folly Farm</i>
Medi 20 ^{fedd} i'r 27 ^{ain} <i>September 20th to 27th</i>	Ffair Lyfrau Scholastic yn yr ysgol <i>Scholastic Book Fair in School.</i>
Dydd Gwener, Medi 22 ^{ain} <i>Friday, September 22nd</i>	Cylch Cerdded <i>School Walkathon</i>
Dydd Mawrth Medi 26 ^{ain} <i>Tuesday, September 26th</i>	Gwasanaeth Dosbarth Mr Owen 9:00yb. <i>Mr Owen's Class Assembly 9:00am</i>
Dydd Iau Medi 28 ^{ain} <i>Thursday, September 28th</i>	Diwrnod Mentergarwch B6 yn YG Ystalyfera <i>Year 6 Entrepreneurship day at YG Ystalyfera</i>
Llun i Wener Hydref 9 ^{fed} i'r 13 ^{eg} <i>Monday to Friday October 9th to 13th</i>	Ymweliad Preswyl Blwyddyn 6 â Than y Bwlch <i>Year 6 Residential Visit to Tan y Bwlch, Snowdonia</i>
Dydd Gwener Hydref 13 ^{eg} <i>Friday, October 13th</i>	Nyrs Ysgol – Chwistrell Ffliw (D i F4) <i>School Nurse – Flu Nasal Spray (R to Y4)</i>
Dydd Mawrth, Hydref 17 ^{eg} <i>Tuesday, October 17th</i>	Finesse – Llundiau Unigol <i>Finesse Photography – Individual Photographs</i>
Dydd Gwener Hydref 27 ^{ain} <i>Friday, October 27th</i>	Gwasanaeth Diolchgarwch yn yr Ysgol <i>Thanksgiving / Harvest Assembly in School</i>
Hanner Tymor – Cau ar ddydd Gwener, Hydref 28 ^{ain} ac yn ail agor i ddisgyblion ar ddydd Llun, Tachwedd 6 ^{ed} <i>Half Term – School closes on Friday, October 28th and will re-open for pupils on Monday, November 6th</i>	
Llun i Fercher Tachwedd 6 ^{ed} i'r 9 ^{fed} <i>Monday to Wednesday November 6th to 9th</i>	Ymweliad Preswyl Blwyddyn 3 â Margam <i>Year 3 Residential Visit to Margam</i>
Dydd Mercher, Tachwedd 8 ^{fed} <i>Wednesday, November 8th</i>	Gala Nofio'r Urdd <i>Urdd Gala</i>
Prynhawn Mercher, Tachwedd 8 ^{fed} <i>Wednesday, November 8th</i>	Prynhawn dathlu gwaith disgyblion Cyfnod Sylfaen <i>Foundation Phase pupil achievement open afternoon</i>
Prynhawn Iau, Tachwedd 9 ^{fed} <i>Thursday, November 9th</i>	Prynhawn dathlu gwaith disgyblion Adran Iau <i>Key stage 2 pupil achievement open afternoon</i>
Dydd Gwener, Tachwedd 17 ^{eg} <i>Friday, November 17th</i>	Pêl Rwyd yr Urdd <i>Urdd Netball</i>
Nos Llun 13 ^{eg} a'r 20 ^{fed} , Nos Fawrth 14 ^{eg} a'r 21 ^{ain} o Dachwedd <i>Monday 13th, 20th and Tuesday 14th and 21st of November</i>	Nosweithiau Rhieni <i>Parents Evenings</i>
Diwedd Tymor – Cau ar ddydd Gwener, Rhagfyr 22 ^{ain} ac yn ail agor ar ddydd Mawrth, Ionawr 9 ^{fed} <i>End of Term – School closes on Friday, December 22nd and will re-open on Tuesday, January 9th</i>	
Nos Lun Ionawr 8 ^{fed} <i>Monday, January 8th</i>	HMS <i>INSET</i>



Ysgol Gymraeg Pontardawe Gwisg Ysgol / *School Uniform*

Gwisg Ysgol / <i>School Uniform</i>	
Crys Polo Nefi <i>Navy Polo Shirt</i>	
Crys Chwys Nefi <i>Navy Sweatshirt</i>	
Cardigan Nefi <i>Navy Cardigan</i>	
Trowsus neu Sgert Lwyd <i>Grey Trousers or Skirt</i>	
Esgidiau du <i>Black shoes</i>	

<https://manhattan-online.co.uk/collections/ysgol-gymraeg-pontardawe>

Ar ddiwrnod chwaraeon caniateir / <i>On PE days pupils can wear</i>	
Jogers nefi ac esgidiau ymarfer <i>Navy Joggers and trainers</i>	
Crys 'T' Nefi / <i>Navy T Shirt</i>	
Gwisg Swyddogol ar gyfer Eisteddfodau a Chyngherddau / <i>Official School Uniform for Eisteddfodau and Concerts</i>	
Trowsus neu Sgert Lwyd <i>Grey Trousers or Skirt</i>	
Crys neu flows gwyn <i>White shirt or blouse</i>	
Tei Ysgol / <i>School Tie</i>	Darperir gan yr ysgol / <i>supplied by school</i>

Drwy archebu ar lein gellid hefyd archebu llythrennau'r enw ar y crysau a'r crysau chwys - fydd sicrhau eu bod o hyd yn cael eu dychwelyd i'r plentyn cywir. Byddem yn argymhell hyn yn gryf!
Using the online ordering system, parents can also request initials on the polo shirts and sweatshirts - ensuring that clothing is always returned to the correct pupil. We would strongly recommend this!

Mae'r cyflenwr hefyd yn darparu'r isod / *The supplier can also offer the items below*
 Enwau'r disgyblion gellid eu gosod drwy smwthio / *Iron on Nametags*
 Hwdi gyda Zip / *Zip Hoodie*
 Cot 'Fleece'Ddiddos / *Waterproof Fleece*
 Cap Ysgol / *School Baseball Cap*
 Cwdyn Ymarfer Corff Ysgol / *School Gym Bag*
 Cwdyn Llyfrau Ysgol / *School Record Bag*
 Sach Gefn Ysgol / *School Backpack*

<https://manhattan-online.co.uk/collections/ysgol-gymraeg-pontardawe>